

ClwydAlyn

# Llys y Waun, Wrecsam

**Mewn ardal breswyl dawel yn y Waun, Wrecsam, mae cartref gofal Llys y Waun yn cynnig croeso cynnes a chartrefol i bobl 60 oed a throsodd.**

Mae'r cartref yn darparu gofal cyfeillgar i ddementia i'r preswylwyr mewn pedair 'aelwyd' sydd wedi'u dylunio'n ofalus.

Yn Llys y Waun, mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar hybu urddas ac ansawdd bywyd uchel. Os ydych chi'n chwilio am amgylchedd diogel a chefnogol neu dawelwch meddwl, byddwch yn dod o hyd i deimlad cartrefol go iawn yma.

## Ein Profiad

Mae gan Llys y Waun dros 3 degawd o brofiad o ddarparu gofal, ac mae ganddo enw da yn lleol am ragoriaeth a chymorth o ansawdd uchel.

Dros y blynyddoedd mae ein gwasanaethau wedi datblygu i fodloni anghenion y preswylwyr wrth iddynt newid, gan gynnwys cyfleuster gofal dementia pwrpasol.

Mae ein huned ddementia bwrpasol yn cynnwys pedair 'aelwyd' iechyd meddwl yr henoed sy'n gartref i 14 o breswylwyr. Nod yr aelwydydd hyn yw creu amgylchedd diogel, ysgogol a chefnogol, o dan arweiniad egwyddorion dylunio 'cyfeillgar i ddementia' Prifysgol Stirling sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol.

Mae'r dull blaengar hwn yn sicrhau bod ein gofal nid yn unig yn seiliedig ar brofiad, ond hefyd ar arfer gorau ar sail tystiolaeth, gan wneud Llys y Waun yn ddewis dibynadwy i unigolion a theuluoedd.




# Pam dewis Llys y Waun?

Rydym yn deall fod dewis y cartref gofal cywir yn golygu llawer mwy nag edrych ar y pethau sylfaenol, mae'n golygu dod o hyd i rywle sy'n teimlo'n iawn i chi neu aelod o'ch teulu. **Dyma beth sy'n ein gwneud ni yn wahanol:**



## Cymorth wedi'i bersonoli

Mae pob preswyliwr yn unigryw ac felly hefyd y gofal rydym yn ei ddarparu. Mae ein dull person-ganolog yn rhoi blaenoriaethau, arferion a dewisiadau'r unigolyn wrth galon ei gynllun gofal, gan hybu annibyniaeth tra'n darparu'r lefel cywir o gymorth.



## Byw'n gysurus, mewn cymuned

Mae preswylwyr yn mwynhau ystafelloedd eang, wedi'u dodrefnu'n dda a mynediad i lolfeydd cyffredin braf ar bob llawr, sy'n berffaith i gymdeithasu neu ymlacio mewn tawelwch. O gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp i ddilyn diddordebau personol, gall bawb ddewis byw fel mae'n ei ddymuno.



## Arbenigedd

Mae ein tîm profiadol o weithwyr proffesiynol yn angerddol dros eu gwaith. O'r staff gofal i'r rheolwyr, mae pob aelod o'r tîm yn canolbwyntio ar greu amgylchedd cefnogol, parchus ac ysbrydoledig lle mae'r preswylwyr yn ffynnu.



## Cymorth dementia arbenigol

Mae ein haelwydydd arbenigol yn cynnig ardaloedd byw sydd wedi'u dylunio'n ofalus i leihau gorbryder, gwella synnwyr o le ac amser a hybu ymgysylltiad ystyrlon, a'r cyfan gyda chymorth staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ym maes gofal dementia.



## Diogelwch, sefydlogrwydd a thawelwch meddwl

Gyda thenantiaethau diogel a staff hirdymor, gall preswylwyr a'u teuluoedd fod yn dawel eu meddwl fod Llys y Waun yn cynnig cysondeb a sefydlogrwydd, ochr yn ochr â gofal a chymorth 24 awr.



**I gael cipolwg ar fywyd yn Llys y Waun gwyliwch ein fideo diweddaraf ar ein tudalen we neu sganiwch y cod QR isod:**

# Beth rydym yn ei gynnig :

## Gofal a Chymorth wedi'i Bersonoli

- Gofal personol wedi'i bersonoli a gweithiwr allweddol ar gyfer pob preswyliwr
- Tîm gofal proffesiynol a chyfeillgar sydd wedi derbyn llawer o hyfforddiant ac sy'n ymroddedig i urddas a llesiant
- Mae ein system alw fodern yn golygu bod cymorth staff ar gael pan fo'r angen

## Llety a Chyfleusterau

- Mae ein hystafelloedd wedi'u dodrefnu a'u haddurno i'r safon uchaf
- Mae pob ystafell yn addas i gadeiriau olwyn ac yn cynnwys ystafell ymolchi en-suite breifat gyda chawod
- Arwyddion clir i'r ystafelloedd gwely ac ardaloedd cyffredin a dyluniad sy'n lleihau dryswch a hybu synnwyr o le ac amser, gan annog annibyniaeth a lleihau gorbryder
- Lolfeydd cyfforddus i breswylwyr a chegin yn llawn offer at ddefnydd pawb
- Salon trin gwallt mewnol
- Ystafell i westeion, os bydd ar gael
- Lleoliad tawel a diogel mewn ardal gadwraeth









## Bwyd a Maeth

- Prydau maethlon ffres o ansawdd uchel, a bwydlen amrywiol
- Prydau wedi'u teilwra i fodloni anghenion deietegol unigol, gan gynnwys deietau arbennig neu feddygol

## Ffordd o fyw a Llesiant

- Cydlynydd Gweithgareddau llawn amser sy'n trefnu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a phrofiadau difyr

## Fforddiadwyedd

- Ffioedd cystadleuol a thryloyw, sydd o fewn cyrraedd pawb

# Adolygiadau

**Adolygiad J S (Cyfaill un o'r Preswylwyr)**

*"Fe wnaeth Llys y Waun groesawu fy nghymydog fel rhan o'r teulu. Cafodd ddiagnosis o ddementia ac roedd ef a'i wraig yn ei chael yn anodd iawn delio â'i phroblemau hithau yn ogystal â'i broblemau ef. Mae'r staff yn anhygoel, maen nhw'n gofalu amdano'n dda iawn - mae'n teimlo'n ddiogel ac mae'n cadw ei urddas. Mae'r gofal o'r radd flaenaf. Mae wrth ei fodd yn mynd am dro yn yr ardd ac mae'r ardd synhwyraidd newydd yn wych ac yn ysgogol iawn. Diolch."*

**Adolygiad J E (Preswyliwr) gyda chymorth y teulu/ffrind**

*"Cyrhaeddais yma ym mis Gorffennaf 2023 ar ôl cwympo sawl gwaith a thorri esgyrn, a gorfod mynd i'r ysbyty droeon. Ers dod i Lys y Waun rwy'n falch o ddweud fy mod yn ddiogel ac yn cael fy ngwarchod. Rwy'n hapus iawn yma ac mae fy nheulu wrth eu bodd yn ymweld â mi. Maen nhw'n mwynhau'r orendy a'r gerddi, ac rwy'n eu hoffi hefyd. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i ddod o hyd i le o'r fath i fyw. Rwyf bellach yn 90 oed."*


**Adolygiad Brad N (Ŵyr Preswyliwr)**

*"Mae nain yn derbyn gofal da iawn yn Llys y Waun. Mae ganddi ystafell heulog braf ac rydyn ni'n mwynhau cael sgwrs a phaned o de yn yr orendy. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn garedig iawn wrth helpu nain, ac mae hi'n cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau ac yn eu mwynhau."*



# Lleoliad

Mae Llys y Waun mewn lleoliad cyfleus iawn gerllaw amwynderau lleol a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i Wrecsam, Croesoswallt a Llangollen – y cyfuniad perffaith o amgylchedd tawel a mynediad hwylus i fywyd y gymuned.



# Sut i ymgeisio

**I gael rhagor o wybodaeth neu i ymgeisio am le:**

Llys y Waun – 01691 774286

neu ewch i:
www.clwydalyn.co.uk/chirk-court/

Llys y Waun, Maes-y-Waun,
Waun, Wrecsam, LL14 5ND

Mae Llys y Waun yn cael ei reoli gan ClwydAlyn, darparwr llety a gwasanaethau gofal arbenigol hen sefydledig ac uchel ei barch.